Bwrdd
Llywodraethu Gwybodaeth
Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Gwasanaeth Gwybodeg Informatics Service

# Cofnodion y cyfarfod

## a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Hydref 2019

### Ystafell Taf, Swyddfeydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, 21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, CF11 9AD

| Aelodau | | |
|---|---|---|
| **Teitl** | **Cynrychiolydd** | **Yn bresennol** |
| Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (BLIGC) | Patrick Coyle | Ydy |
| Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol | Donna Mead - Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Ydy |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) | David Teague - Rheolwr Rhanbarthol (Cymru), ICO | Ymddiheuriadau |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | | |
| Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol | Fraser Campbell - Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Gofal Sylfaenol (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) | Ydy |
| Cynrychiolydd Fferylliaeth | Jamie Hayes, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. | Ymddiheuriadau |
| Cyfarwyddwr Nyrsio | Carole Bell - Cyfarwyddwr Nyrsio | Ydy (trwy gynhadledd fideo) |
| Arweinydd Polisi ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol, Llywodraeth Cymru | Fliss Benee | Ydy |
| Swyddog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am safonau a llywodraethu | Craig Stevens | Ydy |
| Gwarcheidwad Caldicott o'r Sector Annibynnol | | |
| Cynrychiolydd Cleifion / y Cyhoedd | Trevor Davis - Aelod lleyg / Eiriolwr Bevan / Claf | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Sefydliadau Gofal Iechyd Annibynnol | | |
| Cyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN) | Helen Whyley - Cyfarwyddwr Dros Dro Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru | Ymddiheuriadau |
| Cadeirydd, Pwyllgor Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) | Philip White - Aelod o Gyngor Cymru Cymdeithas Feddygol Prydain | Ydy |
| Uwch Arbenigwr ym maes Cyfraith Feddygol / Llywodraethu Gofal Iechyd | Vivienne Harpwood - Arbenigwr mewn Cyfraith Feddygol, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Powys | Ydy |
| **Cynghorwyr** | | |
| Aelod o Gyngor Gwarcheidwaid Caldicott y DU | | |
| Cyfarwyddwr Meddygol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) | Rhidian Hurle | Ymddiheuriadau |
| Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru | Darren Lloyd | Ydy |
| Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG) | Justine Parry - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ydy (trwy gynhadledd fideo) |
| **Ysgrifennydd** | | |
| Arweinydd ar gyfer Cefnogi'r Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth, NWIS | Andrew Fletcher | Ydy |
| Swyddog Arweiniol Llywodraethu Gwybodaeth, NWIS | Marcus Sandberg | Ydy |

# 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb fu’n bresennol a nododd yr ymddiheuriadau.

Croesawodd y Cadeirydd Donna Mead i’r Bwrdd fel cynrychiolydd Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol. Hysbyswyd yr aelodau fod Jamie Hayes wedi derbyn y gwahoddiad i ymuno â'r Bwrdd fel aelod y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ac y byddai’n bresennol o'r cyfarfod nesaf.

Croesawodd y Bwrdd gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol. Nodwyd, oherwydd newid rolau o fewn Llywodraeth Cymru, nad oedd unrhyw gynrychiolydd wedi mynychu ers cryn amser.

# 2. Datganiadau o Fuddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

# 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

# 4. Materion sy'n Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi na fyddai'n cael sylw mewn man arall ar yr Agenda. Rhoddir diweddariad o gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol yn Atodiad 1. Rhoddir diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol sydd heb eu cwblhau yn Atodiad 2.

# 5. Eitemau Busnes BLlGC

**5.1 Ffurflenni Datganiad o Fuddiant - i'w cymeradwyo**

Cyflwynwyd copi o'r ffurflen Datganiad o Fuddiant ddrafft i'r aelodau ei chymeradwyo. Cymeradwywyd y ffurflenni gan yr aelodau. Cytunwyd y byddai'r ysgrifennydd yn dosbarthu copi o'r ffurflen derfynol i'r aelodau ei chwblhau.

**Cymeradwywyd:** Cymeradwywyd y ffurflen Datganiad o Fuddiant gan y Bwrdd.

**Cytunwyd:** Bydd angen i aelodau gwblhau ffurflenni Datganiad o Fuddiant bob blwyddyn.

**Cam Gweithredu:** Bydd yr ysgrifennydd yn anfon ffurflenni Datganiad o Fuddiant i'r aelodau, unwaith y bydd eu haelodaeth wedi'i wirio, iddynt eu llofnodi a'u dychwelyd.

**5.2 Polisi Defnyddio E-byst - i'w gymeradwyo**

Cyflwynwyd polisi Defnyddio E-byst Cymru Gyfan i'r aelodau i'w gymeradwyo. Gwnaed y diwygiad er mwyn diweddaru'r polisi yng ngoleuni gweithredu Transport Layer Security (TLS) yn GIG Cymru a nifer o awdurdodau cyhoeddus. Hysbyswyd yr aelodau bod TLS yn cael ei ddefnyddio'n awtomatig ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel wrth anfon e-byst rhwng yr awdurdodau hynny. Nododd yr aelodau fod rhestr ar gael y gallai holl aelodau staff GIG Cymru gyfeirio ati a bod hon yn cael ei diweddaru.

Cafwyd trafodaeth ynghylch materion gweithredol y gallai fod angen eu hystyried, a holwyd a ddylid gwneud darpariaeth ar gyfer materion o'r fath yn y polisi. Esboniwyd bod hwn yn bolisi cenedlaethol ac felly roedd yn hwyluso penderfyniadau polisi lefel uchel. Esboniwyd hefyd y dylid ystyried ystyriaethau gweithredol, megis meddalwedd arbenigol a ddefnyddir i drosglwyddo e-byst penodol fel gweithdrefn bob tro y byddai'n digwydd.

Cymeradwywyd y Polisi Defnyddio E-byst gan y Bwrdd.

Diolchodd y Cadeirydd i is-grŵp y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth am eu gwaith ar ran y Bwrdd. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob sefydliad er mwyn ei weithredu yn unol â'r broses y cytunwyd arni.

**Cymeradwywyd:** Polisi E-byst Cymru Gyfan wedi'i gytuno gan BLlGC

**Cam Gweithredu:** Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon llythyr gan Gadeirydd BLlGC at Brif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Cymru i'w hysbysu o'r gofyniad i weithredu Polisi Defnyddio E-byst Cymru Gyfan.

### 5.3 Aelodaeth

Atgoffwyd yr aelodau bod e-bost wedi'i anfon ar 22 Awst 2019, yn gofyn i'r aelodau gadarnhau a oeddent dal yn gallu mynychu'r Bwrdd. Nodwyd y byddai'r ymarfer hwn yn cynorthwyo i ddeall yr aelodaeth ac i sicrhau bod bylchau yn yr aelodaeth yn cael eu nodi. Eglurwyd y byddai'r Bwrdd, cyn gynted ag y byddai'r aelodaeth wedi'i llunio, yn ceisio ethol Is-gadeirydd.

**Cam Gweithredu:** Bydd yr ysgrifennydd yn anfon nodyn atgoffa at aelodau i gadarnhau eu gallu i barhau i fynychu'r Bwrdd.

# 6. Diweddaru Gwefan BLlGC

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad o wefan BLlGC ar ei newydd wedd, sydd wedi'i chyhoeddi - (http://www.wigb.wales.nhs.uk).

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y wefan ar ei newydd wedd wedi'i rhesymoli i ddarparu gwybodaeth fwy cryno i ymwelwyr â'r wefan. Nodwyd bod y Cylch Gorchwyl, rhestrau aelodaeth, cofnodion, agendâu cyfarfodydd blaenorol a manylion cyswllt y Bwrdd i gyd ar gael trwy'r wefan. Mae gwefan Gymraeg hefyd ar gael.

# 7. Llif Gwybodaeth Pobl sy'n Byw yng Nghymru NHS Digital

Rhoddwyd papur i'r aelodau, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

Atgoffwyd yr aelodau bod NHS Digital wedi rhoi’r gorau i anfon data Gwasanaeth Defnydd Eilaidd (SUS) ar gyfer cleifion o Gymru sy’n cael eu trin yn Lloegr at NWIS gan nodi pryderon eu bod yn credu nad oedd sail gyfreithiol i ddarparu’r data hyn yn ôl y trefniadau presennol. Nodwyd nad oedd NWIS yn gorff statudol fel NHS Digital yn Lloegr ac roedd absenoldeb rheoleiddio sy’n galluogi rhannu data. Felly, y dull o alluogi defnyddio'r data sydd gan NWIS oedd trwy brosesau cymeradwyo a wnaed o dan Adran 251 o Ddeddf y GIG 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr, ar argymhelliad y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd.

Nododd yr aelodau fod y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn NWIS wedi arwain trafodaethau gyda NHS Digital mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr yn NWIS. Nodwyd bod nifer o ddibenion i lif gwybodaeth, gan gynnwys darparu gofal uniongyrchol. Sicrhawyd yr aelodau bod y data bellach yn cael eu cyflenwi eto, ond roedd hyn yn amodol ar fodloni cyfres o ddarpariaethau, a nodwyd gan NHS Digital.

Hysbyswyd yr aelodau bod disgwyliad bod cytundebau rhwng NWIS a'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru ar waith. Yn ogystal, roedd yn ofynnol bod pob Bwrdd Iechyd yn gwneud diwygiadau i'w polisïau preifatrwydd i gyfeirio at dderbyn data yn ymwneud â gofal cleifion sy'n byw yng Nghymru sydd wedi cael eu trin yn Lloegr. Roedd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu hyn bellach wedi'u cwblhau. Nodwyd bod hwn wedi'i fwriadu fel datrysiad dros dro tra bod hyn yn cael ei sicrhau yn y tymor hir.

Dywedodd yr aelodau fod y Gyfraith Gyffredin yn glir, y gellid darparu'r wybodaeth hon i Gymru. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd NHS Digital yn cytuno â'r datganiad hwn.

Dywedodd yr aelodau fod y Bwrdd wedi egluro i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn BLIGC fod angen cyhoeddi rheoliadau i ddarparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer rhannu data yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Dywedwyd ymhellach fod absenoldeb sylfaen statudol glir ar gyfer NWIS a defnyddio data yng Nghymru yn golygu bod sefydliadau GIG Cymru yn cael eu herio gan eu cymheiriaid yn Lloegr.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â chreu NHS X yn Lloegr. Gwelwyd bod NHS X yn gydweithrediad rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England ac NHS Improvement a oedd â'r nod o gysylltu ymarferwyr a chyrff y GIG wrth gyflawni gweithrediadau system genedlaethol.

Trwy beidio â chyflenwi’r data, nodwyd bod risg o niwed i'r claf, yn enwedig lle defnyddiwyd gwybodaeth ar gyfer gofal uniongyrchol. Dywedwyd y gallai peidio â chyflenwi data ar gyfer rhai defnyddiau eilaidd hefyd effeithio ar ofal cleifion. Enghraifft a roddwyd oedd anfonebu am wasanaethau.

# 8. Diweddariad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Roedd cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Cymru wedi anfon eu hymddiheuriadau. Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

# 9. Diweddariad gan Fwrdd Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG)

Rhoddodd Cadeirydd Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth ddiweddariadau o'r cyfarfod blaenorol yn unol â'r papur a ddarparwyd. Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol o waith Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth:

- **Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru:** Mae is-grŵp y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth wedi datblygu canllawiau i sefydlu proses gyson ar gyfer nodi ac adrodd am achosion o dorri deddfwriaeth diogelu data i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Disgwylir i ddrafft o'r canllaw gael ei ystyried yn BLIGC nesaf ar gyfer ei gymeradwyo. Hysbyswyd yr aelodau bod aelodau’r Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu hannog i rannu adroddiadau am unrhyw doriadau lleol a allai fod wedi digwydd gydag aelodau fel eitem safonol ar yr Agenda.

- **Datblygu Polisi Cenedlaethol:** Gwnaed yr aelodau yn ymwybodol bod is-grŵp Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i adolygu a datblygu polisïau cenedlaethol. Nodwyd bod Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth newydd wedi'i greu ac y byddai'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth yn cael eu hadolygu. Gofynnir i'r BLIGC gymeradwyo'r polisïau hyn i'w gweithredu yn y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru maes o law.

- **Addysg/Iechyd - Rhannu Data:** Dywedwyd wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu cronfa ddata o’r plant hynny nad oedd yn mynychu sefydliad addysg cydnabyddedig. Roedd Is-gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio ochr yn

ochr â nhw i sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gwblhau a'u bod yn dibynnu ar y sail gyfreithiol gywir. Darperir diweddariadau pellach i Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth trwy'r Is-gadeirydd.

- **Diogelu Data:** Gwnaed yr aelodau yn ymwybodol bod yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wedi defnyddio'r 12 cam a nodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi ymgorffori egwyddorion yn eu prosesau Llywodraethu Gwybodaeth lleol. Nododd yr aelodau y bu trafodaethau anffurfiol yn y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth ynghylch ymadawiad y DU â'r UE. Hysbyswyd yr aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru yn ymwneud â 'Brexit' gan nodi y dylai pob sefydliad drosglwyddo unrhyw bryderon ac unrhyw effaith y mae hyn yn ei gael arnynt ar ôl gadael yr UE.

# 10. Patient Knows Best

Darparwyd rhai dogfennau cefndir i'r aelodau, gan gynnwys llinell amser o ryngweithio Patient Knows Best (PKB) â BLIGC / y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth Roedd y dogfennau hyn yn rhoi crynodeb i aelodau o bwrpas a swyddogaethau PKB, a ddarperir gan drydydd parti.

Mynychodd cynrychiolwyr o PKB i arddangos y system ac i ymateb i unrhyw bryderon Llywodraethu Gwybodaeth oedd gan aelodau.

Trafodwyd y canlynol:

- Nodwyd y byddai'r wybodaeth a ychwanegodd y claf yn gallu cael ei golygu neu ei dileu, fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau a wneir gan y meddyg teulu yn aros.

- Cwestiynwyd a yw cleifion yn gwbl ymwybodol o'r hyn y maent yn ymrwymo iddo wrth gofrestru ar gyfer PKB. Roedd PKB wedi datblygu dull aml-haenog o hysbysu'r defnyddiwr gan gynnwys polisi preifatrwydd, cytundeb defnyddiwr a deunydd fideo ategol. Datblygwyd y rhain mewn cydweithrediad â chymunedau lleyg. Roedd yr aelodau'n cwestiynu a fyddai person lleyg yn deall y rhain, nododd PKB ei fod wedi bod trwy asesiadau darllenadwyedd.Gofynnwyd pwy sy'n berchen ar y data.

- Nododd PKB mai eiddo'r claf yw'r wybodaeth a'i bod yn cael ei chadw am o leiaf 8 mlynedd y tu hwnt i'r mewngofnodi diwethaf ar gyfer archwiliad meddygol-gyfreithiol.

- Gall cleifion (neu weithwyr proffesiynol) ganiatáu mynediad i'w cofnod i unrhyw unigolyn arall ac mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar lefelau mynediad h.y rhywiol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol sy'n ddiofyn yn bethau nad ydynt yn cael eu rhannu oni bai eu bod yn cael eu troi ymlaen.

- Esboniwyd y gall meddyg teulu gyrchu PKB trwy'r system meddygon teulu yn Lloegr ac mae cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng practisiau meddygon teulu a PKB.

- Os bydd claf yn marw, gwnaethpwyd yr aelodau yn ymwybodol fod PKB yn cael ei hysbysu yn y system. Fodd bynnag, os oes gofalwr yn ei le, nid yw'n colli mynediad i gofnodion yr ymadawedig yn awtomatig. Ond bydd hyn yn dibynnu ar y protocolau lleol sydd ar waith. Nodwyd, weithiau, y gall meddygon teulu gael mynediad at gofnodion cleifion sydd wedi marw ond y byddai angen cyfiawnhau'r mynediad hwn. Nododd PKB y byddent yn hapus i weithredu unrhyw safon sydd ar waith.

- Holodd yr aelodau pryd fydd PKB yn derbyn y data pan fydd awdurdod yn cofrestru. Nodwyd bod yr holl ddata yn cael eu hychwanegu ar unwaith i PKB, sydd ond yn hygyrch i'r sefydliadau. Mae'r

wybodaeth yn cyrraedd wedi'i hamgryptio ar unwaith. Roedd yr aelodau'n cwestiynu a oedd hyn yn cydymffurfio â'r Gyfraith Gyffredin gan nad yw'r claf yn cael gwybod bod ei ddata'n cael eu defnyddio at bwrpas gwahanol nag y bwriadwyd eu defnyddio.

- Gofynnwyd pa fynediad fyddai ar ddiwedd y contract / terfynu. Nodwyd y byddai'r claf yn dal i allu mewngofnodi i'w gofnod ac y byddai'r cofnod yn cael ei gynnal at ddibenion meddygol-gyfreithiol.
- Gofynnodd yr aelodau sut y mae PKB yn rhoi gwybod am gwynion a dderbyniwyd i awdurdodau. Esboniodd PKB fod gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a nododd bwysigrwydd rhoi gwybod i'r awdurdod am y cwynion hyn.
- Soniodd PKB nad oes system ar gyfer cadw atwrneiaeth.
- Dywedodd PKB ei fod yn brosesydd ar gyfer yr wybodaeth.

**Cam Gweithredu:** Ysgrifennydd i anfon cwestiynau y cytunwyd arnynt gan aelodau at PKB.

**Cam Gweithredu:** Ysgrifennydd i ddosbarthu ymateb a dderbyniwyd gan PKB i'r cwestiynau.

## 11. Swyddogaeth Swyddog Diogelu Data ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol - Diweddariad

Rhoddwyd adroddiad crynhoi cynnydd i'r aelodau yn amlinellu datblygiadau swyddogaeth Swyddog Diogelu Data NWIS ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol. Amlygodd yr adroddiad gyflawniadau'r gwasanaeth hyd yma, gan amlinellu'r tasgau parhaus a oedd yn cael eu cyflawni a'r cyfleoedd yn y dyfodol i ddatblygu'r gwasanaeth.

## 12. Diweddariad ar y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ynghylch datblygiadau'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol ar ffurf papur.

Trefnir diweddariad llafar arall ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 13. Diweddariad ar Gadw Data Electronig Cenedlaethol

Gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf.

## 14. Cronfa Ddata o Daflenni Data rhwng Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau / NWIS

Atgoffwyd yr aelodau bod gwaith wedi bod ar y gweill i fapio'r setiau data rhwng Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac NWIS. Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r setiau data a gofnodwyd yn cael eu nodi mewn cronfa ddata. Byddai'r gronfa ddata ar yr un fformat â'r Catalog Gwasanaeth a byddai'n

cysylltu â hwn a'r Geiriadur Data i sicrhau bod y manylion yn gyfredol. Cafodd yr aelodau wybod y byddent yn cael arddangosiad o'r gronfa ddata yn y cyfarfod nesaf.

# 15. Unrhyw Fater Arall

### 15.1 Newid Statws Sefydliadol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Hysbyswyd yr aelodau y byddai NWIS yn cael ei ailgyfansoddi fel Awdurdod Iechyd Arbennig.

Nodwyd bod Cyfarwyddwr NWIS wedi penderfynu gadael y sefydliad a bod Cyfarwyddwr dros dro wedi cymryd yr awenau i reoli'r sefydliad yn ystod y cyfnod trosiannol.

Dywedodd yr aelodau mai'r gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfle i greu rheoleiddio i alluogi'r sefydliad newydd i gyflawni ei swyddogaethau heb yr angen i wneud cais am gefnogaeth Adran 251.

### 15.2 Blychau negeseuon e-bost wrth newid sefydliad

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut roedd cyfeiriadau e-bost a blychau negeseuon yn cael eu rheoli pan fydd aelod unigol o staff yn symud o un sefydliad GIG Cymru i un arall. Hysbyswyd yr aelodau bod y broses yn cael ei rheoli'n lleol ar hyn o bryd ac nad oedd unrhyw bryderon Llywodraethu Gwybodaeth wedi'u codi hyd yma.

# Atodiad 1 - Camau gweithredu o'r cyfarfod hwn

*[Mae crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r cyfarfod presennol wedi'i gynnwys isod]*

| Cyfeirnod Cam Gweithredu | Disgrifiad | Cam Gweithredu | Gan |
|---|---|---|---|
| **5.1-10/19** | **Ffurflenni Datganiad o Fuddiant** | Bydd yr ysgrifennydd yn anfon ffurflenni Datganiad o Fuddiant at aelodau, unwaith y bydd eu haelodaeth wedi'i wirio, iddynt eu llofnodi a'u dychwelyd. | Ysgrifennydd |
| **5.2-10/19** | **Polisi Defnyddio E-byst** | Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon llythyr gan Gadeirydd BLIGC at Brif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Cymru i'w hysbysu o'r gofyniad i weithredu Polisi Defnyddio E-byst Cymru Gyfan. | Ysgrifennydd |
| **5.3-10/19** | **Aelodaeth** | Bydd yr ysgrifennydd yn anfon nodyn atgoffa at aelodau i gadarnhau eu gallu i barhau i fynychu'r Bwrdd. | Ysgrifennydd |
| **10.1-10/19** | **Patient Knows Best** | Ysgrifennydd i anfon cwestiynau y cytunwyd arnynt gan aelodau at PKB. | Ysgrifennydd |
| **10.2-10/19** | **Patient Knows Best** | Ysgrifennydd i ddosbarthu ymateb a dderbyniwyd gan PKB i'r cwestiynau. | Ysgrifennydd |

# Atodiad 2 - Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

*Mae camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol nad ydynt wedi'u cwblhau yn Atodiad 2 o hyd gyda disgrifiad byr o unrhyw gynnydd a wnaed. Ar ôl cau, cânt eu copïo i Atodiad 3 fel cam gweithredu sydd wedi'i gau]*

| Cyfeirnod Cam Gweithredu | Disgrifiad | Cam Gweithredu | Gan | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **11-12/18** | **Ein Dyfodol mewn Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Ddata** | Gwahodd awduron yr adroddiad i gyfarfod BLIGC yn y dyfodol | Ysgrifennydd | Gwahoddir awduron ar amser addas |
| **14-12/18** | **Unrhyw Fater Arall** | Mae angen Cynrychiolydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bwrdd - Siarad â Llywodraeth Cymru | Darren Lloyd | I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad aelodaeth |
| **5.1.2-10/18** | **Cylch Gorchwyl BLIGC wedi'i** | Chris Newbrook i egluro'r gofynion sy'n | Chris Newbrook | Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth |

| Cyfeirnod Cam Gweithredu | Disgrifiad | Cam Gweithredu | Gan | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | **ddiweddaru i'w gymeradwyo** | ymwneud â chyfnodau aelodau BLIGC | | Cymru yn bresennol |
| **6.1-10/18** | **Swyddogaeth Swyddog Diogelu Data ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol** | Llywodraeth Cymru i godi pryderon y Bwrdd yn fewnol mewn perthynas â diffyg cefnogaeth Swyddog Diogelu Data i ddarparwyr gofal sylfaenol nad oeddent o fewn cwmpas y gwasanaeth. | Chris Newbrook | Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol |
| **13.1-10/18** | **Diweddariad y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth – Cofrestr Risg** | Chris Newbrook i drafod perchnogaeth risgiau llywodraethu gwybodaeth cenedlaethol gyda Chadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth y tu allan i'r cyfarfod | Chris Newbrook | Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol |

# Atodiad 3 - Camau Gweithredu sydd wedi'u Cwblhau

*[Cedwir y camau gweithredu hyn yn y cofnodion 'er gwybodaeth' ar gyfer un cyfarfod ar ôl eu cwblhau]*

| Cyfeirnod Cam Gweithredu | Disgrifiad | Cam Gweithredu | Gan | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **5.1.1-07/19** | **Cylch Gorchwyl BLIGC** | Ysgrifennydd i egluro a oedd aelodau nad oeddent wedi mynychu ers peth amser yn dal i allu bod yn weithredol ar y Bwrdd a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r Cadeirydd | Ysgrifennydd | Wedi'i gwblhau |
| **5.1.2-07/19** | **Cylch Gorchwyl BLIGC** | Vivienne Harpwood i wahodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol i eistedd ar y Bwrdd. | Vivienne Harpwood | Wedi'i gwblhau |
| **5.1.3-07/19** | **Cylch Gorchwyl BLIGC** | Diwygio'r Cylch Gorchwyl yn unol â sylwadau a wnaed gan aelodau. | Ysgrifennydd | Wedi'i gwblhau |

| Cyfeirnod Cam Gweithredu | Disgrifiad | Cam Gweithredu | Gan | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **5.2.1-07/19** | **Datganiad o Fuddiant** | Bydd angen diwygio’r Ffurflen Datganiad o Fuddiant | Ysgrifennydd | Wedi’i gwblhau |
| **10-07/19** | **Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth** | Gwahodd PKB i’r cyfarfod nesaf. | Ysgrifennydd | Wedi’i gwblhau |
| **5.1.3-10/18** | **Cylch Gorchwyl BLlGC wedi'i ddiweddaru i'w gymeradwyo** | Ysgrifennydd i greu ffurflen Datganiad o Fuddiant drafft i'w chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf | Ysgrifennydd | Wedi’i gwblhau |